

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Cardiac Health Diagnostics Limited,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
• Ansawdd Profiad y Claf	10
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	19
4. Y camau nesaf	23
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cardiac Health Diagnostics (CHD) Limited ar 3 Rhagfyr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Cwblhawyd yr arolygiad drwy ddefnyddio ein methodoleg ar gyfer asiantaeth feddygol nad yw'n cynnwys safle. Er mwyn gwneud hyn, cwblhaodd y lleoliad ffurflen hunanasesu a gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol. At hynny, gwnaethom edrych ar gopïau caled o ddogfennau a ddefnyddir i ategu'r gwasanaethau sgrinio.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, ni chwblhawyd unrhyw holiaduron.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion yn ystod yr apwyntiad sgrinio, gan ystyried demograffeg cleifion a ffactorau sy'n gysylltiedig â'u ffordd o fyw. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw daflenni hybu iechyd ar bynciau fel bwyta'n iawn neu roi'r gorau i smygu ar gael.

Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu hyrwyddo drwy ddefnyddio sgriniau symudol neu ystafelloedd preifat. Roedd cleifion yn cael eu cyfarch yn unigol ac roedd gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Roedd gynau urddas ar gael ac roedd hebryngwyr yn cael eu cynnig ar gyfer pob triniaeth. Roedd cleifion ag amhariadau ar y clyw neu'r golwg yn cael cymorth.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth glir cyn cael eu sgrinio, ac roedd ffurflenni cydsynio a holiaduron meddygol yn cael eu cwblhau. Roedd cydsyniad wedi'i ddogfennu'n briodol ac roedd y ffurflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd yn ofynnol i gleifion dan 18 oed gael cydsyniad ysgrifenedig gan riant ac roedd yn rhaid i oedolyn fod yn bresennol yn yr apwyntiad.

Roedd gwybodaeth am weithdrefnau, costau ac opsiynau triniaeth ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled. Cynigiwyd apwyntiadau sgrinio wedi'u hariannu'n llawn i gleifion rhwng 16 a 25 oed. Roedd yr holl gleifion yn cwblhau profion electrocardiogram (ECG), gydag ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal yn ôl yr angen, yn ogystal ag ymgynghoriadau cardioleg. Roedd y gwasanaeth yn archwilio'r opsiynau ar gyfer cleifion ag anawsterau synhwyrdd neu wybyddol.

Dywedwyd wrthym fod y lleoliadau a ddefnyddir yn hygyrch i bobl anabl a bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu ac roedd yn gadarnhaol iawn, gan nodi bod y staff yn gyfeillgar a bod y gwasanaeth yn effeithlon. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r adborth yn cael eu cyhoeddi na'u cynnwys yn y canllawiau i gleifion, a oedd hefyd yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth am delerau ac amodau a chrynodebau'r arolygiad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod deunyddiau hybu iechyd ar gael yn ystod sesiynau sgrinio

- Cyhoeddi canlyniadau adborth gan gleifion ar wefan y clinig a'u cynnwys yn y canllaw i gleifion, yn ogystal â hybu'r canlyniadau hyn mewn sesiynau sgrinio
- Sicrhau bod y canllaw i gleifion yn gyflawn a bod yr holl adrannau perthnasol wedi'u cwblhau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Hybu urddas a pharch cleifion yn ystod sesiynau sgrinio ac ymgynghoriadau gan sicrhau preifatrwydd drwy gydol y sesiynau sgrinio
- Darparu gwybodaeth glir a chywir cyn sesiynau sgrinio, gan gynnwys casglu ffurflenni cydsynio a holiaduron meddygol
- Ceisio adborth gan gleifion, a oedd yn gadarnhaol iawn, ac roedd y sylwadau yn nodi bod y staff yn gyfeillgar, bod y gwasanaeth yn effeithlon a bod gofal o ansawdd da yn cael ei ddarparu ar y cyfan.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dywedwyd wrthym fod lleoliadau sgrinio yn cael eu gwirio gan y Rheolwr Cofrestredig cyn digwyddiadau a bod y staff yn cael eu briffio ar weithdrefnau brys ac arferion gweithio'n ddiogel. Roedd arferion iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn ac roedd gan y lleoliadau eu gweithdrefnau eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg iechyd a diogelwch ffurfiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer pob lleoliad, a nodwyd y mater hwn yn flaenorol.

Roedd rheoliadau ar waith i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau. Roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau a nifer digonol o nwyddau traul ar gael. Roedd y gwelyau yn cael eu glanhau rhwng cleifion, roedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu ac roedd y cyfarpar aml dro yn cael ei reoli'n briodol. Roedd angen diweddarau'r polisi atal a rheoli heintiau i gynnwys y broses o lanhau padiau, gwelyau a chwiliedyddion Echo.

Roedd polisi diogelu a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Roedd angen diweddarau'r polisi hefyd er mwyn nodi arweinydd diogelu ac nid oedd arweinydd diogelu wedi cael ei enwebu ar gyfer pob digwyddiad sgrinio.

Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar sgrinio yn addas at y diben ac yn cael ei gynnal a'i gadw, ond ni welsom y cofnodion cynnal a chadw yn ystod yr arolygiad. Roedd y gofal a ddarparwyd yn ddiogel ac yn glinigol effeithiol, gyda phrosesau canfod yn gynnar ac atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen. Ni oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cwblhau ac nid oedd datganiad blynyddol wedi cael ei lunio fel sy'n ofynnol.

Roedd y cofnodion a welsom yn gywir ar y cyfan ond nid oeddent yn cynnwys adrannau ar gyfer hanes meddyginiaeth ac alergedd nac yn cynnwys cofnod o'r cynnig o hebryngwyr. Roedd rhai nodiadau ymgynghoriadau a llofnodion ar goll. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys ychwanegu adrannau ar gyfer meddyginiaeth ac alergedd, dogfennu'r cynnig o hebryngwyr a sicrhau bod pob un o'r cofnodion yn cael eu llofnodi a'u dyddio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod asesiadau risg wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal cyn y sesiynau sgrinio
- Diweddarau'r polisi atal a rheoli heintiau a'r polisi Diogelu
- Cwblhau cofnodion meddygol cleifion yn llawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol
- Roedd ymrwymiad i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed
- Roedd arferion glanhau yn cael eu cynnal ar y cyfarpar.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir, gyda llinellau adrodd a gwneud penderfyniadau. Dywedwyd wrthym fod y Rheolwr Sgrinio yn gweithredu fel yr uwch-swyddog cyfrifol yn ystod pob digwyddiad, gan sicrhau bod polisiâu yn cael eu dilyn a bod y broses sgrinio yn cael ei darparu mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol. Roedd y staff yn cael eu briffio drwy sgrymiau ac apiau ar-lein ac roedd tystysgrif cofrestru AGIC yn cael ei harddangos ym mhob digwyddiad. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion yn cael eu llunio o gyfarfodydd y cyfarwyddwyr, er gwaethaf y ffaith y cafodd y mater hwn ei nodi yn yr arolygiad blaenorol.

Nododd arolwg boddhad cleifion y gwasanaeth fod lefel yr adborth cadarnhaol yn 99% ac roedd y broses o reoli fersiynau yn cael ei chynnal ar gyfer pob polisi. Roedd y prosesau ar gyfer rheoli pryderon a chwynion yn effeithiol. Roedd polisi cwynion ar waith ac roedd cleifion yn cael eu hysbysu am y weithdrefn drwy'r canllaw i gleifion. Cafwyd dwy gŵyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chawsant eu datrys yn brydlon. Roedd y polisi cwynion yn cynnwys yr holl fanylion gofynnol, gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer AGIC a'r trefniadau cymorth.

Roedd angen gwella'r arferion recriwtio, ac er bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, nid oedd prawf adnabod, geirdaon, contractau na'r disgrifiadau swydd diweddaraf yn y cofnodion cyn cyflogi. Nid oedd tystiolaeth gyflawn o gymwysterau proffesiynol a chofrestriad â chorff rheoleiddio.

Roedd y broses o gynllunio'r gweithlu yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig yn bresennol ym mhob sesiwn sgrinio ac roedd digwyddiadau'n cael eu gohirio os nad oedd aelodau eraill o staff ar gael. Roedd proses sefydlu'r staff yn cael ei dogfennu ac roedd lefel gydymffurfiaeth â hyfforddiant yn dda ar y cyfan, ond nid oedd cofnod un aelod o'r staff yn cynnwys tystiolaeth ategol. Roedd matrices hyfforddiant yn cael ei ddatblygu, ond rhaid i'r gwasanaeth gynnal cofnodion hyfforddiant gorfodol cyfredol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau gwiriadau recriwtio perthnasol a'u cynnal yn y ffeiliau
- Cynnal tystiolaeth i ddangos bod y staff yn parhau i feddu ar gymwysterau addas a'u bod wedi cwblhau hyfforddiant addas
- Cofnodi cyfarfodydd cyfarwyddwyr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gyda llinellau adrodd a phrosesau gwneud penderfyniadau
- Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod polisiâu yn cael eu dilyn a bod digwyddiadau sgrinio yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol
- Roedd polisi cwynion cynhwysfawr ar waith ac roedd cleifion yn cael eu hysbysu am y weithdrefn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod trafodaeth yn cael ei chynnal yn ystod yr ymgynghoriad â'r cardiologydd ynghylch canlyniadau'r profion electrocardiogram (ECG) ac ecocardiogram, yn ogystal â chynnal prawf pwysedd gwaed y claf. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gallai cleifion ofyn unrhyw gwestiynau a byddent yn cael cyngor ar gais ar unrhyw faterion o ran ffordd o fyw a allai godi.

Roedd y digwyddiadau sgrinio yn cael eu trefnu gan Calon Hearts, sef elusen sgrinio'r galon a diffibrilwyr, ac roedd contract effeithiol ar waith gyda Diagnostig Iechyd Cardiaidd (CHD) a oedd yn darparu gwasanaethau sgrinio. Roedd Calon Hearts yn hybu iechyd y galon ac yn pwysleisio ei bwysigrwydd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

Drwy sgysiau â'r Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol, dywedwyd wrthym nad oedd taflenni yn cael eu cynnig i'r cleifion er mwyn hybu ffordd iach o fyw, fel bwyta'n iach, gwneud ymarfer corff neu roi'r gorau i smygu. Nodwyd y mater hwn yn yr adroddiad blaenorol dyddiedig 15 Mai 2018 hefyd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd berthnasol yn cael ei harddangos ac ar gael i'r cleifion yn ystod y sesiynau sgrinio.

Urddas a pharch

Cafodd ffurflen hunanasesu ei chwblhau cyn yr arolygiad a oedd yn disgrifio sut roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu hybu yn y lleoliadau a ddewiswyd ar gyfer sgrinio ac ymgynghoriadau. Roedd y ffurflen hon hefyd yn disgrifio sut roedd y cyfleusterau sgrinio yn cael eu gosod er mwyn sicrhau diogelwch y staff. Dywedwyd wrthym fod arferion iechyd a diogelwch cyffredin yn cael eu cynnal, er enghraifft osgoi creu peryglon baglu a sicrhau bod coridorau ac allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir. Roedd gweithdrefnau iechyd a diogelwch lleol ar waith yn y lleoliadau a ddefnyddiwyd y byddent yn eu defnyddio yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod cleifion yn cael eu cyfarch yn unigol wrth gyrraedd gan dîm gweinyddol y gwasanaeth sgrinio a bod y cleifion yn cyflwyno holiaduron meddygol a ffurflenni cydsynio wedi'u cwblhau i aelodau'r tîm fel rheol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd y cleifion yn darparu'r dogfennau wedi'u cwblhau. Mewn achosion o'r fath, roedd y tîm yn rhoi

ffurflenni gwag i'r cleifion eu cwblhau ac roeddent yn cael cynnig preifatrwydd er mwyn gwneud hynny'n gyfrinachol. Yn y naill achos neu'r llall, nid oedd gwybodaeth bersonol yn cael ei thrafod yn agored. Byddai'r sesiwn sgrinio yn cael ei chynnal y tu ôl i sgriniau symudol a gaiff eu lleoli'n briodol neu mewn ystafelloedd caeedig i sicrhau urddas a phreifatrwydd y claf. Roedd gynau urddas ar gael a gallai'r cleifion ddewis cael rhywun yn gwmni iddynt yn ystod y sesiwn sgrinio. Roedd ymgynghoriadau â'r cardiolegydd hefyd yn cael eu cynnal mewn lleoliad preifat addas er mwyn sicrhau y gellir trafod heb beryglu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd CHD yn defnyddio lleoliadau yr oedd modd sicrhau'r uchod yn unig.

Dywedwyd wrthym fod cymorth ar gyfer cleifion byddar neu trwm eu clyw ar gael ar ddiwrnod y sesiwn sgrinio ynghyd â chymorth i unrhyw un ag amhariad ar y golwg.

Roedd polisi hebryngwr cryno a oedd yn nodi y byddai pob claf yn cael cynnig hebryngwr i fod yn bresennol yn ystod y profion a'r ymgynghoriad. At hynny, roedd y canllaw i gleifion a'r wybodaeth ar-lein am ddigwyddiadau sgrinio yn cyfeirio at hyn. Dywedwyd wrthym y byddai o leiaf un hebryngwr cymwysedig ym mhob digwyddiad sgrinio. Ar gyfer cleifion o dan 18 oed, roedd angen i oedolyn cyfrifol fod yn bresennol gyda'r claf ac aros drwy'r broses sgrinio a'r ymgynghoriad.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth am y diwrnod sgrinio ymlaen llaw a oedd yn esbonio'r driniaeth a manylion y clinig. Ar ôl i apwyntiad gael ei drefnu, roedd cleifion yn cael canllaw i gleifion a thaflen wybodaeth ynghyd â ffurflen gydsynio a holiadur meddygol i'w cwblhau cyn y sesiwn sgrinio. Byddai'r staff meddygol yn gofyn i'r cleifion egluro'r wybodaeth a ddarperir ar yr holiadur meddygol yn ôl yr angen.

Er nad oedd polisi cydsynio manwl ar waith, roedd y ffurflen gydsynio a welsom yn nodi na fyddai'r sesiwn sgrinio yn cael ei chynnal heb ffurflen gydsynio wedi'i chwblhau. Roedd hefyd yn nodi bod angen i'r rhai dan 18 oed gael ffurflen ganiatâd ysgrifenedig gan riant neu warcheidwad a bod yn rhaid i oedolyn fod yn bresennol yn y sesiwn sgrinio. Roedd y ffurflenni cydsynio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn dangos bod cydsyniad dilys wedi'i gasglu a bod ffurflenni cydsynio priodol â manylion perthnasol wedi'u cynnwys yn y cofnodion.

Cyfathrebu'n effeithiol

O siarad ag uwch-aelodau o staff ac o edrych ar y ffurflen hunanasesu, roedd tystiolaeth i ddangos bod cleifion yn cael gwybodaeth glir a chywir pan oedd ei hangen arnynt ac mewn ffordd y gallent ei deall yn hawdd.

Dywedwyd wrthym fod y datganiad o ddiben ar gael i'r cleifion ar ffurf copi caled ar ddiwrnod y sesiwn sgrinio ynghyd â'r canllaw i gleifion. Saesneg oedd yn cael ei defnyddio fel y brif iaith yn ystod prosesau sgrinio fel arfer, ond byddai cymorth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg pan fo'r staff gweinyddol neu staff clinigol a oedd yn bresennol yn gallu siarad Cymraeg.

Roedd polisi cyfredol ar waith ar ddarparu gwybodaeth i gleifion a oedd wedi'i chynnwys yn y polisi rheoli cofnodion.

Roedd gwybodaeth ar gael i bobl am gostau triniaethau a gwasanaethau yr oedd angen iddynt dalu amdanynt ar wefan Calon Hearts. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am brofion ECG ac Echo, yr hyn roeddent yn ei gwmpasu a'r gwahaniaethau rhyngddynt. At hynny, roedd gwybodaeth ar gael ar y wefan am opsiynau sgrinio, ac unrhyw gyfarwyddiadau ar ôl sgrinio. Roedd sesiynau sgrinio'r galon wedi'u hariannu'n llawn ar gael i gleifion rhwng 16 a 25 oed. Roedd hyn yn cynnwys prawf ECG gydag Echo, os byddai'r ECG yn canfod unrhyw annormaleddau, neu yn ôl disgresiwn y cardiolegydd.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn gweld cardiolegydd ar ddiwrnod y sesiwn sgrinio, oni fydd angen iddynt ddychwelyd y diwrnod canlynol i weld y cardiolegydd oherwydd cyfyngiadau amser. Lle roedd angen i glaf gael ei atgyfeirio at wasanaeth gofal iechyd arall i gael ei archwilio, y weithdrefn wreiddiol oedd rhoi llythyr i'r cleifion er mwyn iddynt ei roi i'w meddyg teulu. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth bellach wedi rhoi proses ar waith lle y byddai'r clinig yn gofyn i'r claf a oedd am gael copi ac yn anfon neges e-bost at feddyg teulu'r claf. Dywedwyd wrthym nad oedd y clinig yn cynnig opsiwn i drin cleifion â phroblemau synhwyraidd neu anawsterau gwybyddol, ond nodwyd ei fod yn ymchwilio i'r mater.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi bod pob claf yn cael ei drin â'r lefel uchaf o barch ac mewn ffordd broffesiynol iawn, a oedd hefyd yn amlwg o'r holiaduron adborth a oedd wedi'u cwblhau. Dywedwyd wrthym mai dim ond lleoliadau sgrinio a oedd yn galluogi mynediad i bobl anabl roedd CHD yn eu defnyddio ac y byddai rhywun yn bresennol gyda'r claf drwy gydol y broses sgrinio yn ôl ei ddymuniad. Dylai'r gwasanaeth ystyried gofyn i'r cleifion ymlaen llaw os oedd ganddynt unrhyw ofynion arbennig a sicrhau bod dehonglwyr Language Line ac Iaith Arwyddion Prydain ar gael yn ôl yr angen.

Roedd polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant perthnasol ar waith.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Darparwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod barn y cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio i wella'r gwasanaeth. Y brif ffordd o gasglu barn oedd drwy'r holiadur adborth yr oedd y cleifion yn ei gwblhau ar ôl y sesiwn sgrinio. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn aml yn rhoi sylwadau i'r staff gweinyddol a'r staff meddygol. Byddai unrhyw beth perthnasol yn cael ei rannu â'r Rheolwr Sgrinio. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn, fel y gwelsom yn y sampl o holiaduron adborth a oedd wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau o sampl o holiaduron adborth a welsom yn cynnwys y canlynol:

“Staff ardderchog.”

“Cwrtais a chyfeillgar iawn.”

“Gwasanaeth ffantastig.”

“Nid oedd yn rhaid i mi aros llawer.”

“Staff cyfeillgar ond yn gorfod aros yn hir (x1 claf).”

“Gwasanaeth gwych, rwy'n falch ei fod yn bodoli.”

“Mae'n hawdd trefnu apwyntiad, ond mae'r slotiau'n mynd yn gyflym.”

“Yn hapus iawn â fy mhrofiad, mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn. Rwy'n meddwl ei fod yn arbennig fod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig.”

“Gwasanaeth cyflym, ystafell gynnes, staff cwrtais. Fodd bynnag, nid oedd llawer o breifatrwydd i gael sgysiau ar lafar. Bylchau bach yn y sgriniau rhannu ystafell.”

“Mae'r ystafell yn oer (x1 claf).”

Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r adborth yn cael eu cyhoeddi'n ffurfiol, ac nid oedd y canlyniadau yn cael eu cynnwys yn y canllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig fod staff yn y digwyddiadau'n cael eu hannog i edrych drwy ffurflenni adborth a dysgu unrhyw wersi os ydynt yn berthnasol. Dywedwyd wrthym fod y cleifion wedi dweud bod y sesiwn sgrinio yn para'n hirach na'r hyn roeddent wedi'i feddwl a bod y gwasanaeth bellach yn dweud wrth y cleifion, ac y rhoddir gwybod iddynt yn y gwasanaeth trefnu apwyntiad ar-lein, y dylent ganiatáu tua dwy awr ar gyfer yr apwyntiad o'r adeg y byddant yn cyrraedd

hyd at ddiwedd yr ymgynghoriad. Os oedd angen i'r claf adael cyn yr ymgynghoriad, yna byddai'r staff yn gofyn i'r claf ddychwelyd y diwrnod canlynol neu byddai'r cardiolegydd yn ei ffonio yn ddiweddarach yr wythnos honno.

Er bod y Datganiad o Ddiben a welsom yn cynnwys yr holl adrannau perthnasol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, nid oedd pob adran berthnasol wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys crynodeb o'r Datganiad o Ddiben, telerau ac amodau'r gwasanaethau a ddarperir, crynodeb o farn cleifion a'r adroddiad arolygu diweddaraf gan AGIC.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod canlyniadau adborth gan gleifion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, eu harddangos yn ystod digwyddiadau sgrinio a'u cynnwys yn y canllaw i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd yn nodi y byddai'r Rheolwr Sgrinio a'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod y cyfleusterau sgrinio yn cael eu gosod mewn ffordd a fyddai'n sicrhau diogelwch cleifion. Byddai'r Rheolwr Cofrestredig bob amser yn ymweld â lleoliad sgrinio cyn digwyddiad, i sicrhau bod staff lleoliad angenrheidiol ar gael i ddarparu gwybodaeth am weithdrefnau brys lleol a gwybodaeth berthnasol am y lleoliad. Roedd gweithdrefnau iechyd a diogelwch lleol ar waith yn y lleoliadau a ddefnyddiwyd, a byddent yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hysbysu am weithdrefnau ar gyfer y sesiwn sgrinio ac am unrhyw agweddau penodol perthnasol ar y lleoliad ar ddechrau'r sesiwn. Roedd y staff clinigol yn cyfrannu at y broses o osod y cyfleusterau ym mhob lleoliad sgrinio. Roedd arferion iechyd a diogelwch cyffredin yn cael eu cynnal, er enghraifft osgoi creu peryglon baglu a sicrhau bod coridorau ac allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd Gweithdrefn Gosod Digwyddiad Sgrinio a Sefydlu Staff ar waith gan CHD. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys y camau a gymerir gan y rheolwyr a'r staff fel esbonio cynllun y lleoliad a'r gweithdrefnau brys perthnasol i'r staff gweinyddol a'r staff meddygol.

Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i'r holl staff sy'n bresennol sicrhau bod iechyd a diogelwch cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn. Byddai'r Rheolwr Sgrinio yn cynnal gwiriad iechyd a diogelwch cyn y disgwylir i'r cleifion gyrraedd, gan edrych am eitemau fel peryglon baglu a dodrefn neu gyfarpar sydd wedi cael eu gosod yn amhriodol. Roedd y staff hefyd yn cynnal arferion gweithio diogel drwy gydol y digwyddiad sgrinio a byddent yn ymdrin ag unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar hyn wrth iddynt godi. Fodd bynnag, er y byddai'r Rheolwr Sgrinio yn sicrhau bod y lleoliad yn addas at y diben, nid oedd asesiad risg iechyd a diogelwch priodol wedi'i gwblhau ar gyfer pob lleoliad. Tynnwyd sylw at y mater hwn yn yr adroddiad blaenorol hefyd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i ddogfennu yn cael ei gynnal cyn sgrinio a bod cofnod ohono yn cael ei gadw ar ffeil.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Dywedwyd wrthym fod CHD yn rhoi gwybod i'r staff bod pob un ohonynt yn gyfrifol am atal a rheoli heintiau yn y sefydliad. Roedd aelodau o'r staff yn cael

cyfarwyddiadau clir ar arferion gorau'r canllawiau hylendid, yn ogystal â chyfarwyddiadau glanhau penodol.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi bod digon o nwyddau traul priodol (gel uwchsain, tabiau ECG, gynau urddas, rholyn gwelyau, deunyddiau glanhau hylan ac ati) bob amser ar gael i sicrhau nad oedd gofal cleifion yn cael ei beryglu.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff y trefniadau ar gyfer glanhau, dihalogi, cludo a storio dyfeisiau a chyfarpar meddygol aml dro. Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar a ddefnyddir yn addas at y diben ac yn cael ei ddefnyddio gan staff a oedd yn meddu ar gymwysterau addas. Roedd gwelyau cleifion yn cael eu glanhau rhwng cleifion ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael. Nid oedd unrhyw offer miniog yn cael eu defnyddio ac nid oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi. Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith yr oedd angen ei ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad at bediau glanhau, gwelyau a chwiliyddion Echo.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn cael ei ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad at bediau glanhau, gwelyau a chwiliyddion Echo.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dywedwyd wrthym fod y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol. Roedd polisi diogelu perthnasol ar waith hefyd, ac roedd aelodau perthnasol o'r staff wedi ymgymryd â gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion yr arweinydd diogelu na manylion yr unigolyn a fyddai'n gweithredu fel yr arweinydd diogelu enwebedig ar gyfer pob digwyddiad. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai o leiaf dau aelod o'r staff gweinyddol a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau sgrinio wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod arweinydd diogelu yn cael ei enwi yn y polisi diogelu a bod arweinydd diogelu yn cael ei enwebu ar gyfer pob digwyddiad sgrinio.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Dywedwyd wrthym fod gan y gwasanaeth y cyfarpar perthnasol i ddiwallu gofynion y broses sgrinio. Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi bod y gwasanaeth yn defnyddio ei gyfarpar sgrinio ei hun, peiriant Uwchsain Diagnostig Mindray M7 a dau beiriant GE Healthcare MAC 800 ECG. Roedd Profion Offer Cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal ar y rhain yn rheolaidd ac roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr.

Trafodwyd y trefniadau ar gyfer gwasanaethu, cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar. Fodd bynnag, ni welsom y cofnodion cynnal a chadw yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r cyflogwr anfon copïau o'r dogfennau i gefnogi'r broses o gynnal a chadw a chynnal profion PAT ar y cyfarpar i AGIC.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth diogel a oedd yn effeithiol yn glinigol oherwydd y manteision i'r cleifion a gan ei fod yn canfod yn gynnar ac yn gwneud atgyfeiriadau fel mesurau ataliol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom sampl o'r holiaduron adborth a roddir i'r cleifion i'w cwblhau ar ôl y sesiwn sgrinio. Dywedwyd wrthym fod y tîm gweinyddol yn gwirio'r gwaith papur o sesiynau sgrinio ar ôl y digwyddiad er mwyn nodi unrhyw faterion. Ni chawsom gopi o'r datganiad blynyddol sy'n ofynnol gan y rheoliadau perthnasol a dywedwyd wrthym nad oedd y ddogfen hon yn cael ei chwblhau fel mater o drefn. Nodwyd y mater hwn yn ystod yr arolygiad blaenorol hefyd.

Nid ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau, gan gynnwys archwiliadau clinigol, wedi'u cwblhau gan y gwasanaeth, ac nid oedd polisi archwilio ychwaith. Mae archwiliad clinigol yn broses systematig a ddefnyddir i fesur ansawdd y gofal yn erbyn safonau y cytunir arnynt er mwyn eu gwerthuso yn erbyn arferion gorau a chymryd camau i wella os nad yw hynny'n berthnasol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- **Bod datganiad blynyddol yn cael ei lunio a'i anfon at AGIC ar unwaith**
- **Bod polisi archwilio, gan gynnwys archwiliadau clinigol, yn cael eu llunio fel drafft**
- **Bod archwiliadau'n cael eu cwblhau fel mater o drefn fel sy'n ofynnol gan y polisi archwilio.**

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion sgrinio 15 o gleifion, a nodwyd eu bod yn gywir ac yn cael eu rheoli'n briodol ar y cyfan. Roedd cofnodion papur yn cael eu cynnal ar gyfer pob claf.

Dywedwyd wrthym fod yr holl gofnodion cleifion yn cael eu rheoli gan Calon Hearts Screening and Defibrillators. Roedd staff gweinyddol y digwyddiadau sgrinio a'r

Rheolwr Sgrinio yn gweithio i Calon Hearts, a oedd wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd Calon Hearts yn cadw'r holl gopiâu caled o gofnodion cleifion yn ei swyddfeydd diogel mewn system ffeilio nodedig a threfnus.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys gwybodaeth am yr unigolyn a oedd yn gwneud y cofnod yn ystod pob cysylltiad, y dyddiad, unrhyw benderfyniadau a wnaed a'r camau y cytunwyd arnynt ynghyd â'r unigolyn a oedd yn gwneud y penderfyniadau ac yn cytuno ar gamau gweithredu. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ar y pryd ar ôl gofal a thriniaeth.

Er bod gan y staff yr opsiwn i gofnodi'r wybodaeth, nid oedd yn ofynnol iddynt ddatgan hanes meddyginiaeth a hanes alergedd. Roedd yr holiadur sgrinio yn sicrhau y gellir nodi risgiau penodol fel mynegai crynswth corfforol (BMI) ynghyd ag unrhyw symptomau posibl yn gyffredinol. Dywedwyd wrthym y byddai cyngor perthnasol yn cael ei roi i'r cleifion, lle y bo angen, yn dilyn y sesiwn sgrinio ac ymchwiliadau yn y clinig, er enghraifft addasiadau i'w ffordd o fyw a sicrhau eu bod wedi'u hydradu. Lle roedd angen cynnal ymchwiliadau pellach ar glaf, er enghraifft mewn ysbyty, roedd y canlyniadau'n cael eu rhannu â meddyg teulu'r claf. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau ymchwiliadau "arferol" yn cael eu rhannu â meddyg teulu y claf, ond dylid ystyried y mater hwn.

Er bod hebryngwyr yn cael eu cynnig i'r cleifion, nid oedd tystiolaeth o'r cynnig hwn yn cael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion. At hynny, nid oedd pob un o'r profion ECG yn cael ei lofnodi gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol. Cyfeiriwyd at y profion hyn yn nodiadau'r ymgynghoriad ac roeddent yn cael eu llofnodi. Nid oedd nodiadau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys ym mhecyn cofnodion meddygol dau o'r cleifion. Dywedwyd wrthym y byddai'r nodiadau hyn wedi'u hanfon fel rhan o'r atgyfeiriad at ofal eilaidd i'w reoli ymhellach. Roedd y rhan fwyaf o nodiadau'r cleifion a welsom yn cynnwys gwybodaeth dda am sgrinio ynghyd â gwybodaeth berthnasol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- **Bod hanes meddyginiaeth a hanes alergedd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r holiadur meddygol**
- **Bod pob un o'r cofnodion ymgynghori yn cael eu llofnodi a'u dyddio**
- **Bod tystiolaeth o'r cynnig o hebryngwr yn cael ei dogfennu.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

O siarad ag uwch-aelodau o staff ac o edrych ar y ffurflen hunanasesu, roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gyda llinellau adrodd clir a fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd y digwyddiadau sgrinio yn cael eu trefnu gan elusen Calon Hearts, yr oedd CHD dan gontract â hi i ddarparu gwasanaethau sgrinio, ac roedd cleifion yn cael eu gwahodd gan yr elusen hon. Roedd CHD wedi cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau sgrinio'r galon symudol.

Roedd y llinellau adrodd, atebolrwydd a chyfrifoldebau yn y sesiynau sgrinio yn glir. Dywedwyd wrthym fod y Rheolwr Sgrinio yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau'n cael eu dilyn a bod y digwyddiad yn darparu gwasanaeth sgrinio diogel a phroffesiynol. Roedd pob aelod o'r staff gweinyddol a'r staff clinigol mewn digwyddiad sgrinio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Sgrinio a fyddai'n rhoi'r arweiniad a'r cyfarwyddyd angenrheidiol iddynt.

Roedd y Rheolwr Sgrinio yn gyfrifol am adolygu a chytuno ar bolisïau a gweithdrefnau cyn iddynt gael eu rhoi ar waith. Defnyddiwyd prosesau rheoli fersiynau ar y polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Dywedwyd wrthym fod y Rheolwr Sgrinio hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau neu o bolisïau a gweithdrefnau newydd. Byddai llawlyfr polisïau a gweithdrefnau ar gael i bob aelod o'r staff yn ystod y digwyddiadau sgrinio. Roedd grwpiau anfon negeseuon am wybodaeth hefyd yn cael eu defnyddio i rannu unrhyw newidiadau perthnasol. Hefyd, roedd sgrymiau yn cael eu cynnal ar ddechrau'r ddiwrnod lle byddai unrhyw newidiadau'n cael eu nodi.

Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol oedd cyfarwyddwyr y gwasanaeth a chawsom wybod eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y broses o redeg y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarfodydd cyfarwyddwyr hyn yn cael eu cofnodi i sicrhau atebolrwydd priodol. Tynnwyd sylw at hyn yn yr adroddiad blaenorol hefyd.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan y cyfarwyddwyr yn cael eu trefnu a'u cofnodi a bod y camau i'w cymryd yn cael eu nodi, i sicrhau atebolrwydd priodol.

Dywedwyd wrthym fod copi caled o dystysgrif cofrestru AGIC yn cael ei arddangos ym mhob digwyddiad.

Roedd y ffurflen hunanasesu yr oedd angen ei chwblhau cyn yr arolygiad hefyd wedi'i chwblhau'n llawn ac wedi'i hanfon atom mewn modd amserol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth brosesau effeithiol ar gyfer rheoli pryderon. Roedd polisi ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion a rheoli digwyddiadau, yn ogystal â pholisi chwythu'r chwiban cyfredol.

Byddai'r cleifion yn cael gwybod am y weithdrefn gwyno drwy'r canllaw i gleifion a oedd ar gael ar ôl iddynt drefnu apwyntiad, ac roedd y canllaw ar gael ar ddiwrnod y sesiwn sgrinio yn ogystal â'r weithdrefn gwyno a oedd ar waith. Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig y byddai'r weithdrefn gwyno ar gael mewn fformatau gwahanol, er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu pobl, ar gais.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi bod dwy gŵyn wedi dod i law yn ystod y 12 mis diwethaf yr ymdriniwyd â nhw ar y diwrnod y gwnaethpwyd y cwynion. Dywedwyd wrthym fod mân gwynion hefyd yn cael eu gwneud o bryd i'w gilydd ynghylch amseroedd aros mewn digwyddiadau sgrinio, gan y gallai digwyddiadau fod yn brysur iawn ac y gallai amseroedd aros ymestyn i gwpwl o oriau. Dywedwyd wrthym y byddai'r Rheolwr Sgrinio bob amser yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am yr amseroedd aros disgwylledig ac y byddai'r cleifion yn cael cynnig ymgynghoriadau dros y ffôn ar ôl y sesiwn sgrinio os nad oeddent yn gallu aros i weld y cardiolegydd.

Roedd y polisi cwynion a welsom yn cynnwys y wybodaeth berthnasol yr oedd ei hangen gan gynnwys manylion am sut y gallai cleifion wneud cwyn, â phwy y gallant gysylltu i wneud cwyn, manylion cyswllt AGIC a chmau'r broses gwyno. Roedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau eraill a allai ddarparu help a chymorth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisi recriwtio addas a chyfredol ar waith yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth lawn o'r gwiriadau cyn cyflogi ar gael ar gyfer y pum cofnod a welsom. Roedd hyn yn cynnwys diffyg prawf adnabod, gan gynnwys ffotograff diweddar, dim geirdaon gan ddau gyflogwr diweddaraf yr unigolion a dim contract cyflogaeth na disgrifiad swydd cyfredol. Tynnwyd sylw at hyn yn yr adroddiad blaenorol hefyd.

Roedd y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd yn nodi bod y staff hynny a gaiff eu hystyried i gyflawni'r dyletswyddau yn ystod digwyddiad sgrinio wedi cael eu recriwtio mewn ffordd addas ac yn meddu ar gymwysterau addas, yn cynnwys cyfarfod cychwynnol â'r Rheolwr Cofrestredig neu'r Unigolyn Cyfrifol a phrawf o'u

sgiliau a'u cymwysterau. Yna, byddent yn dilyn y broses sefydlu wedi'i dogfennu cyn cymryd rhan mewn digwyddiad sgrinio.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n gwirio bod cofrestriad gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â'u cyrff rheoleiddio yn gyfredol a bod y staff a oedd yn gweithio i'r gwasanaeth, neu ar ei ran, wedi cwblhau hyfforddiant addas, yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau i gyflawni eu dyletswyddau. Roedd tystiolaeth i ddangos bod tystysgrif DBS (hyd at y lefel briodol) ar gael yn y sampl a welsom. Roedd y Rheolwr Cofrestredig hefyd angen bod yn sicr nad oedd unrhyw newidiadau i'r gwiriad ers gwneud cais amdano'n wreiddiol.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol

- **Bod y gwiriadau recriwtio a chyn cyflogi perthnasol yn cael eu cwblhau a'u bod ar gael ar ffeil ar gyfer pob cyflogai a'r rhai sy'n gweithio ar ran y gwasanaeth**
- **Bod pob unigolyn sy'n gweithio ar ran y gwasanaeth yn parhau i fod wedi'i gofrestru, ei fod wedi cwblhau hyfforddiant addas ac yn meddu ar gymwysterau addas**
- **Bod tystysgrifau o statws DBS y staff ar gael bob blwyddyn.**

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig, profiadol a chymwys i ddarparu sesiwn sgrinio i bobl ym mhob lleoliad. Dywedwyd wrthym na fyddai'r sesiwn sgrinio yn cael ei chynnal heb fod staff sy'n meddu ar gymwysterau ym maes ECG, Echo a chardioleg yn bresennol. Roedd CHD wedi sgrinio dros 1,700 o bobl yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynnal un neu ddwy sesiwn y rhan fwyaf o wythnosau ac nid oedd unrhyw ddigwyddiadau mawr wedi codi. Roedd achlysuron lle roedd y staff yn absennol oherwydd salwch ar ddiwrnod y digwyddiad sgrinio yn un o'r prif broblemau, a oedd wedi arwain at ohirio'r digwyddiad sgrinio os nad oedd staff cymwysedig eraill ar gael.

Roedd gweithdrefn sefydlu staff briodol wedi'i dogfennu. Roedd y weithdrefn hon wedi'i hymgorffori fel rhan o broses gosod digwyddiadau sgrinio, a oedd yn esbonio'r camau a gymerir gan y rheolwr sgrinio a'r staff yn ystod y sesiwn sgrinio.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion pedwar aelod o staff a ddewiswyd ar hap, gwelsom fod 75% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân, atal a rheoli heintiau, adfywio a diogelu. Roedd canran y gydymffurfiaeth yn 75% gan nad oedd un aelod o'r staff o'r sampl a ddewiswyd wedi darparu lefel ei gydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym fod matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu a bod y gwasanaeth yn dibynnu ar hyfforddiant yr oedd y staff yn ei gwblhau yn eu prif swydd yn y GIG. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom drafod hyn â'r Rheolwr Cofrestredig a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'n gofyn i'r staff ddod â'u cofnodion hyfforddiant er mwyn gwneud copi ohonynt. Roeddem ar ddeall y byddai hyn yn cael ei roi ar waith ar unwaith.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan y gwasanaeth gofnodion hyfforddiant perthnasol o'r hyfforddiant gorfodol y mae'r staff wedi'i gwblhau a'i fod yn sicr fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant digonol ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith maent yn ei gyflawni.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Cardiac Health Diagnostics

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cardiac Health Diagnostics

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd taflenni yn cael eu cynnig i'r cleifion er mwyn hybu ffordd iach o fyw, fel bwyta'n iach, gwneud ymarfer corff neu roi'r gorau i smygu.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd berthnasol yn cael ei harddangos ac ar gael i'r cleifion yn ystod y sesiynau sgrinio.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 3 - Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd	Bydd CHD yn chwilio am ddeunydd priodol ac yn sicrhau ei fod ar gael ym mhob digwyddiad sgrinio.	R Sacks	Mawrth 26
2.	Er bod y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl adrannau perthnasol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod canlyniadau adborth gan gleifion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, eu harddangos yn ystod	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 7 (1) (e)	Caiff Canllaw i Gleifion CHD ei ddiweddarau'n unol â hynny. Caiff crynodebau o adborth	R Sacks	Mawrth 26

	Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, nid oedd pob adran berthnasol wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys crynodeb o'r Datganiad o Ddiben, telerau ac amodau'r gwasanaethau a ddarperir, crynodeb o farn cleifion a'r adroddiad arolygu diweddaraf gan AGIC.	digwyddiadau sgrinio a'u cynnwys yn y canllaw i gleifion.		gan gleifion eu cynnwys yn y Canllaw i Gleifion, ar wefan Calon Hearts a bydd ar gael ym mhob digwyddiad sgrinio.		
3.	Er y byddai'r rheolwr sgrinio yn sicrhau bod y lleoliad yn addas at y diben, nid oedd asesiad risg ieched a diogelwch priodol wedi'i gwblhau ar gyfer pob lleoliad. Tynnwyd sylw at y mater hwn yn yr	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod asesiad risg ieched a diogelwch wedi'i ddogfennu yn cael ei gynnal cyn sgrinio a bod cofnod ohono yn cael ei gadw ar ffeil.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19 (1) (b)	Bydd CHD yn creu templed safonol ar gyfer asesiadau risg ieched a diogelwch ar gyfer lleoliadau sgrinio ac yn cwblhau asesiad ar gyfer pob lleoliad, a fydd ar gael yn y lleoliad hwnnw ar gyfer staff a chleifion.	R Sacks	Chwefror 26 ac yn barhaus

	adroddiad blaenorol hefyd.					
4.	Roedd angen diweddaru'r polisi atal a rheoli heintiau i gynnwys cyfeiriad at badioau glanhau, gwelyau a chwiliedyddion Echo.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at badioau glanhau, gwelyau a chwiliedyddion Echo.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 9 (1) (n) Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 13 - Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Caiff polisi Atal a Rheoli Heintiau CHD ei ddiweddaru'n unol â hynny.	R Sacks	Mawrth 26
5.	Nid oedd y polisi diogelu yn cynnwys manylion yr arweinydd diogelu na manylion yr unigolyn a fyddai'n gweithredu fel yr arweinydd diogelu enwebedig ar gyfer pob digwyddiad.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod arweinydd diogelu yn cael ei enwi yn y polisi diogelu a bod arweinydd diogelu yn cael ei enwebu ar gyfer pob digwyddiad sgrinio.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 11 - Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed	Bydd arweinydd diogelu CHD yn cael ei enwi yn ei ddogfen bolisi a chaiff unigolyn ei enwebu ar gyfer pob digwyddiad sgrinio.	R Sacks	12 Chwefror 26
6.					R Sacks	

	Trafodwyd y trefniadau ar gyfer gwasanaethu, cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar. Fodd bynnag, ni welsom y cofnodion cynnal a chadw yn ystod yr arolygiad.	Rhaid i'r cyflogwr anfon copïau o'r dogfennau i gefnogi'r broses o gynnal a chadw a chynnal profion PAT ar y cyfarpar i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Atodlen 3, Rhan II 3 (c)	Cynhaliwyd profion PAT ar holl gyfarpar perthnasol CHD ym mis Ionawr 26. Bydd y peiriannau ECG yn cael eu calibradu yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 16 Chwefror 26. Mae trefniadau wrthi'n cael eu gwneud i galibradu'r peiriant Echo ddechrau mis Mawrth 26.		Ionawr - Mawrth 26
7.	Dywedwyd wrthym nad oedd datganiad blynyddol yn cael ei lunio fel mater o drefn fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau perthnasol a rheoliadau AGIC. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol: - Bod datganiad blynyddol yn cael ei lunio a'i anfon at AGIC - Bod polisi archwilio, gan gynnwys archwiliadau clinigol,	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (o) ac 19 (2) (c) (ii)	Caiff Datganiad Blynyddol ei gyflwyno ym mis Chwefror 26. Caiff polisi archwilio ei lunio ym mis Mawrth 26.	R Sacks	Chwefror - Mawrth 26

	wedi'u cwblhau gan y gwasanaeth, ac nid oedd polisi archwilio ychwaith.	yn cael eu llunio fel drafft Bod archwiliadau'n cael eu cwblhau fel mater o drefn fel sy'n ofynnol gan y polisi archwilio.				
8.	Nid oedd gofyniad i ddatgan hanes meddyginiaeth a hanes alergedd. Nid oedd pob prawf ECG yn cael ei lofnodi gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol. Er bod hebryngwyr yn cael eu cynnig i'r cleifion, nid oedd tystiolaeth o'r cynnig hwn yn cael ei dogfennu yng	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol: - Bod hanes meddyginiaeth a hanes alergedd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r holiadur meddygol - Bod pob un o'r cofnodion ymgynghori yn cael eu llofnodi a'u dyddio - Bod tystiolaeth o'r cynnig o hebryngwr yn cael ei dogfennu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 23	Bydd CHD yn cael cyngor gan ei Gardiolegwyr ynghylch gofyn am hanes meddyginiaeth a gwybodaeth am alergedd. Os byddant yn cytuno y dylai'r holiadur meddygol ofyn am y materion hyn, bydd yr holiadur yn gwneud hynny mewn ffordd briodol. Caiff pecyn cofnodion pob un o'r cleifion ei gymeradwyo gan Gardiolegydd, ac mae	R Sacks	Mawrth 26

	nghofnodion y cleifion.			hyn wedi cael ei ychwanegu at ffurflen adrodd y Cardiolegydd. Bydd naill ai'r adroddiad hwn neu ganlyniadau'r ECG, neu'r ddau, yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y Cardiolegydd.		
9.	Nid oedd tystiolaeth lawn o'r gwiriadau cyn cyflogi ar gael ar gyfer y pum cofnod a welsom. Roedd tystiolaeth i ddangos bod tystysgrif DBS (hyd at y lefel briodol) ar gael yn y sampl a welsom. Mae angen i'r Rheolwr Cofrestredig fod yn sicr nad oedd unrhyw newidiadau i'r gwiriad	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol - Bod y gwiriadau recriwtio a chyn cyflogi perthnasol yn cael eu cwblhau a'u bod ar gael ar ffeil ar gyfer pob cyflogai a'r rhai sy'n gweithio ar ran y gwasanaeth - Bod pob unigolyn sy'n gweithio ar ran y gwasanaeth yn	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 21(2) ac Atodlen 2	Mae CHD wedi creu cronfa ddata o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer staff clinigol. Caiff y gronfa ddata hon ei chynnal a'i chadw yn ôl yr angen.	R Sacks	Parhaus

	ers gwneud cais amdano'n wreiddiol.	parhau i fod wedi'i gofrestru, ei fod wedi cwblhau hyfforddiant addas ac yn meddu ar gymwysterau addas Bod tystysgrifau o statws DBS y staff ar gael bob blwyddyn.				
10.	Nid oedd y cyfarfodydd cyfarwyddwyr hyn yn cael eu cofnodi i sicrhau atebolrwydd priodol.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan y cyfarwyddwyr yn cael eu trefnu a'u cofnodi a bod y camau i'w cymryd yn cael eu nodi, i sicrhau atebolrwydd priodol.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 1 - Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Caiff cyfarfodydd y cyfarwyddwyr eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi.	R Sacks	Parhaus
11.	Wrth edrych ar sampl o gofnodion pedwar aelod o staff a ddewiswyd ar hap, gwelsom fod 75% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant. Roedd	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan y gwasanaeth gofnodion hyfforddiant perthnasol o'r hyfforddiant gorfodol y mae'r staff wedi'i gwblhau a'i fod yn sicr fod pob aelod o'r staff wedi	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, rheoliad 20 (2) (a)	Bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yng nghronfa ddata y staff clinigol a grybwyllwyd uchod.	R Sacks	Parhaus

canran y gydymffurfiaeth yn 75% gan nad oedd un aelod o'r staff o'r sampl a ddewiswyd wedi darparu lefel ei gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Dywedwyd wrthym fod matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu.	cwblhau hyfforddiant digonol ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith maent yn ei gyflawni.				
--	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Richard Sacks

Teitl swydd: Cyfarwyddwr CHD ac Unigolyn Cyfrifol AGIC

Dyddiad: 12 Chwefror 26